

Gwyddoniaeth Gudd

1. Gwyddoniaeth Wallgo!

Rydym i gyd wedi clywed am *'fake news'*. Mae rhai straeon o fyd gwyddoniaeth mor hurt nes eu bod nhw'n swnio fel newyddion ffug. Dyma bedair stori... ond pa rai sy'n ffug?

Defnyddio 'pi-pi' i dyfu tomatos yn y gofod!

Mae gwyddonwyr yn yr Almaen yn ymchwilio i ffyrdd o dyfu bwyd yn y gofod gan gynnwys ailgylchu wrin dynol i dyfu planhigyn tomato!

Argraffu Caws!

Mae Argraffydd 3D fel arfer yn defnyddio deunyddiau fel neilon, plastig, serameg a metal i argraffu. Ond mae gwyddonwyr wedi bod yn arbrofi gyda... CHAWS! Llwyddon nhw i argraffu sampl fychan o gaws. Efallai, rhyw ddiwrnod y bydd Argraffydd 3D yng nghegin pawb!

Gwefus-gyfrinair!

Mae tîm o Adran Gwyddoniaeth Cyfrifiadureg mewn prifysgol yn Hong Kong wedi datblygu'r dechnoleg i ddefnyddio symudiad gwefusau er mwyn creu cyfrinair. Mae'r dechnoleg mor glyfar a manwl, mae'n debyg mai'r math yma o gyfrinair fydd y mwyaf diogel.

Llygaid Gwdihw!

Mae'n debyg bod modd trawsblannu lens llygaid tylluan i lygaid dynol er mwyn gwella golwg yn y nos. Mae'n dechnoleg sy'n cael ei datblygu ar gyfer milwyr yn UDA.

2. I'r Gofod

Dyma ddau ddarn o lenyddiaeth i chi eu darllen.

Yn gyntaf, detholiad o erthygl oddi ar wefan golwg360.com yn sôn am ymgyrch i ddod â maes rocedi i Lanbedr, ger Harlech.

Yna, detholiad byr o eiriau cyntaf nofel Llyr Titus, 'Gwalia'. Nofel wyddonias am antur merch o'r enw Elan sy'n byw ar long ofod o'r enw Gwalia.

[Ai yn Llanbedr y bydd porthladd gofod cynta' gwledydd Prydain?](#)

Mae hen faes awyr ger Harlech gam yn agosach at fod yn un o “borthladdoedd gofod” cynta' gwledydd Prydain, yn ôl y cwmni sydd am weld y lle'n cael ei ddatblygu.

Bu tîm o Spaceport Cymru mewn cynhadledd yn Llundain ym mis Chwefror i drafod teithiau i'r gofod – ac fe gafodd achos 'Canolfan Awyrofod Eryri' yn Llanbedr, ei roi gerbron.

Roedd cynhadledd 'Launch UK: Igniting the UK's new space age' yn cael ei chynnal gan y Gymdeithas Awyrennol, gyda chynrychiolwyr o borthladdoedd gofod posib eraill ledled gwledydd Prydain yn cyflwyno eu hachosion nhwthau.

Cystadleuol

Beth sy'n gwneud achos Canolfan Awyrofod Eryri yn un deniadol?

- Ei safle ar yr arfordir i'r de o dre' dwristaidd Harlech;
- Ei lleoliad o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, sy'n golygu bod nifer yr awyrennau sy'n hedfan uwchben yn isel;
- Ei hanes o fod yn faes arbrofi awyrennau di-beilot yn y gorffennol.

“Gwelsom wir ddiddordeb yn yr hyn sy'n digwydd yn Llanbedr,” meddai Prif Weithredwr Canolfan Awyrofod Eryri, Paul Lee.

Fe allai'r teithiau cyson i'r gofod ddigwydd mor fuan â 2020.



Llun: Llanbedr Hangars - geograph.org.uk - 420619 - [Peter Humphreys](#) © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution-ShareAlike 2.0](#)

* * * * *

GWALIA

(PENNOD 1)

Gwaeddodd Hans Reiter rywbeth llawer gwaeth nag 'wps'.

Yn ôl y cyfrifiadur, doedd dim gobaith dianc.

Gwasgodd y sbardun i'r eithaf. Roedd yr injan yn sgrechian.

Dim newid.

Roedd yn dal i gael ei dynnu tuag at y blaned.

Dyrnodd y llyw.

Roedd wedi ymchwilio, wedi treulio'i oes yn dilyn hanesion hen yrwyr llongau cargo. Wedi casglu dyddiaduron a chofnodion fideo pobl a oedd wedi fforio



*(h) y testun Llyr Titus
Gyda diolch i Wasg Gomer*

drwy'r gofod ac wedi pori drwyddyn nhw'n ofalus. Wedi darganfod y gwirionedd yn y chwedlau. Yna rhoi gweddill ei arian i brynu chwip o long ofod a threulio blynyddoedd yn crwydro rhwng y planedau. A dyma fo wedi cyrraedd yr unig blaned y bu'n chwilio amdani. Ac roedd yntau ar fin marw.

Roedd ganddo ddeg munud i fyw yn ôl cloc y cyfrifiadur.



Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
porthladdoedd	mwy nag un porthladd	ports
cynhadledd	digwyddiad pan mae pobl sy'n rhannu diddordeb yn dod at ei gilydd i'w drafod	conference
ledled	ar draws, ledled y byd = ar draws y byd	across

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
sbardun	pedal mewn cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio i reoli cyflymder	throttle
injan	enw am beiriant sy'n gyrru rhywbeth	engine
darnodd	rhywun yn defnyddio ei ddwrn i daro rhywbeth	he/she punched
fforio	teithio i fannau newydd	(to) explore
pori	bwyta porfa / glaswellt	(to) graze

3. Egni adnewyddol er mwyn y dyfodol!

Anfonwyd: Dydd Llun, 10 Ebrill 2017 12:17

Oddi wrth: wil.ymchwil@amegni.cymru

At: gwynt@adnewyddol.cymru, haul@adnewyddol.cymru, môr@adnewyddol.cymru

Annwyl Gwynt, Haul a Môr,

Rwyf yn ysgrifennu atoch eich tri er mwyn cael gwell syniad am yr hyn allwch chi ei gynnig o ran creu egni adnewyddol. Rwyf yn poeni'n arw am ddyfodol ein hamgylchedd, ac felly rwy'n chwilio am ffordd iachach i gynhyrchu egni. Rwy'n ymwybodol ei bod yn bosib cynhyrchu egni trwy eich defnyddio chi. Ond nid wyf yn siŵr pa un ohonoch yw'r mwyaf effeithiol.

Ydy hi'n bosib i chi ymateb i'r e-bost yma gydag unrhyw sylwadau fyddai'n gymorth i mi ddewis un ohonoch ar gyfer fy mhrosiect os gwelwch yn dda?

Cofion,
Wil Ymchwil.

Anfonwyd: Dydd Llun, 10 Ebrill 2017 12:30

Oddi wrth: gwynt@adnewyddol.cymru

At: wil.ymchwil@amegni.cymru, haul@adnewyddol.cymru, môr@adnewyddol.cymru

Annwyl Wil,

Diolch yn fawr am dy e-bost. Rwy'n credu'n gryf mai fi yw'r mwyaf effeithiol am gynhyrchu egni.

Mae Cymru'n wlad fynyddig felly mae digon o lefydd gwyntog. Dim ond buddsoddi mewn Melinau Gwynt sy'n rhaid i ti ac fe wna i wneud y gweddill. Mae Melin Wynt arferol yn ddigon i bweru 1,500 o dai.

Nid yw Melinau Gwynt yn gwneud cymaint o niwed i fyd natur ag y mae'r argloddiau ac argaeau fyddai'n rhaid i ti eu hadeiladu petaet ti am ddenfyddio'r môr i gynhyrchu trydan.

Rwy'n hyderus mai fi yw'r mwyaf effeithiol am gynhyrchu trydan.

Cofion gwyntog,
Gwynt.

Anfonwyd: Dydd Llun, 10 Ebrill 2017 12:42

Oddi wrth: môr@adnewyddol.cymru

At: wil.ymchwil@amegni.cymru, haul@adnewyddol.cymru,
gwynt@adnewyddol.cymru

Annwyl Wil,

Rwyf wedi darllen eich ebost ac ymateb Gwynt. Mae'n wir bod rhai pryderon am effaith adeiladu arglawdd ac argae ar fyd natur ond mae'n rhaid cofio nad ydy Gwynt yn ddibynadwy iawn. Ydi hi'n wyntog bob dydd? A beth sy'n digwydd os ydy'r gwynt yn rhy gryf?

Mae'r môr, ar y llaw arall, yno ddydd a nos... sy'n gwbl wahanol i'r haul wrth gwrs. All yr haul gynhyrchu egni yn y nos?

Mae'n bosib defnyddio'r tonnau a defnyddio'r llanw i gynhyrchu egni. Mae symudiad y dŵr yn gyrru generaduron trydan.

Heb os, fi yw'r dewis gorau i chi.

Cofion morol,
Môr.

Anfonwyd: Dydd Llun, 10 Ebrill 2017 12:53

Oddi wrth: haul@adnewyddol.cymru

At: wil.ymchwil@amegni.cymru, môr@adnewyddol.cymru,
gwynt@adnewyddol.cymru

Annwyl Wil,

Mae hi wedi bod yn ddifyr iawn darllen dy e-bost ac ymateb y ddau arall.

Mae'n wir nad ydw i'n gynhyrchiol iawn yn y nos nac ychwaith pan mae hi'n gymylog ond mae yna nifer o wahanol ffyrdd o ddefnyddio fy egni i.

Mae'n bosib cynhyrchu trydan, cynhesu dŵr a hyd yn oed cynhesu adeiladau.

Mae'r dechnoleg sy'n defnyddio gwres yr haul yn datblygu trwy'r amser ac mae'r posibiliadau yn amrywiol.

Mae'n debyg bod ein hymateb yn rhoi mwy o benbleth i ti gan fod manteision ac anfanteision i bawb. Bydd yn rhaid i ti wneud mwy o waith ymchwil mae arna i ofn.

Cofion heulog,
Haul.

4. Lliwiau Llachar

Mae lliwiau yn rhan o'n bywydau pob dydd ac yn rhan o bob agwedd gan gynnwys ein ffordd o feddwl. Allwch chi ddychmygu'r byd heb y lliw gwyrdd er enghraifft? Rydym yn cysylltu lliwiau â phethau, bwyd, byd natur, teimladau hyd yn oed. Mae rhai o'r cysylltiadau yma yn digwydd heb i ni hyd yn oed feddwl amdanynt. Mae yna lawer o astudiaethau ar sut yr ydym yn dehongli lliwiau a beth mae lliw yn ei gynrychioli.

Dyma arbrawf hwyliog i brofi sut mae eich ymennydd yn ymdopi â lliwiau a geiriau. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gallu darllen gair yn gynt nag adnabod y lliw. Profwch eich hun gan geisio rhestru lliw y geiriau isod yn hytrach na darllen y gair. Amserwch pa mor gyflym allwch chi eu rhestru yn gywir.

COCH

GWYRDD

GLAS

MELYN

PORFFOR

COCH

OREN

BROWN

GLAS

GWYRDD

Mae lliwiau yn aml yn cael eu cysylltu ag emosiwn. Mae ambell gysylltiad erbyn hyn wedi mynd yn ystrydeb e.e. mae "gweld coch" yn awgrymu bod rhywun

wedi gwylltio, neu mae gwyrdd yn cael ei gysylltu â chenfigen. Ond mae'n rhaid cofio bod pawb yn wahanol pan mae hi'n dod at deimladau ac emosiynau.

Dyma bennill bach am deimlo'n ddryslyd sy'n defnyddio'r lliw llwyd:

Dryslyd.

Llwyd fel cymylau Tachwedd.

Sŵn degau o leisiau yn sibrwd.

Mae'n digwydd pan dwi wedi blino.

Dryslyd.

Mae yna astudiaethau gwyddonol o bob math wedi eu gwneud ar liwiau, am liwiau a gyda lliwiau. Ond mae lliwiau yn bwysig yn ein bywydau creadigol hefyd. Beth am i chi wrando ar dair cân Gymraeg sy'n defnyddio "lliwiau":

'Lliwiau' gan *Bendith*:

<https://www.youtube.com/watch?v=-Dlu8jKSnAg>

'Lliwiau' gan *9Bach*:

<https://www.youtube.com/watch?v=vA6kqH-bTuE>

Chwiliwch am drac gwych gan y *Super Furry Animals* o'r enw 'Lliwiau Llachar'.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
agwedd	ffordd o feddwl	attitude
ymdopi	delio gyda rhywbeth	(to) manage
ystrydeb	rhywbeth sy'n gyfarwydd	stereotype
gwylltio	colli tymer, mynd yn flin	(to) get angry
cenfigen	gair arall am eiddgedd	jealousy

5. Mewn Dyfroedd Dyfnion!

Yn ddiweddar, cafodd llong ymchwil danfor Boaty McBoatface ei hanfon ar ei thaith gyntaf yn yr Antartica. Dyma ddetholiad o erthygl oddi ar *Cymru Fyw* gan Gymro sy'n gweithio yn y maes.

<http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/38068318>

Cymru ar waelod y byd

24 Tachwedd 2016

Mae Huw Griffiths yn wreiddiol o bentref Llanon yng Ngheredigion ond bellach wedi bod yn ei swydd fel Biologydd Môr yn y [British Antarctic Survey](#) yng Nghaergrawnt ers 16 mlynedd. Mae'n teithio i Antartica fel rhan o'i swydd i astudio'r creaduriaid sydd yno.

Soniodd wrth *Cymru Fyw* am ei brofiadau yn byw a gweithio ar waelod y byd:

Creaduriaid hyll

Rydw i'n edrych ar y bywyd gwyllt sydd ar wely'r môr. Mae gennym ni staff gwahanol sy'n edrych ar y pengwiniad a'r morloi (y pethau ciwt fel yna!), a rhai eraill yn astudio pethau fel pysgod, ond y pethau 'hyll' sydd yn mynd â mryd i - y pryfaid bach sy'n byw ar y gwaelod - rhai sydd â dim llygaid, neu lawer o lygaid, dim coesau, neu lawer o goesau!

Mae'r rhan fwyaf o greaduriaid Antartica yn byw ar wely'r môr, ac mae gennym ni enwau i tua 12,000 ohonyn nhw - ond mae'n siŵr fod yna'r un nifer eto o rai dydyn ni heb roi enwau iddyn nhw. Bob tro rydyn ni'n mynd yno, rydyn ni'n darganfod rhywogaethau newydd - 'naethon ni ddarganfod rhyw 10 ohonyn nhw'r tro diwethaf. Weithiau rydyn ni'n gweithio i ddyfnder o hyd at 2,500m.

Rydyn ni'n gollwng camerâu i lawr i dynnu lluniau o wely'r môr a mathau arbennig o rwydi er mwyn codi creaduriaid. Does dim modd i ni weld o'r lluniau camera bob tro os yw'r creadur yn rhywogaeth newydd neu beidio, felly mae'n rhaid cael samplau.



Bywyd ar y môr

Pan dwi yno, dwi'n gweithio a byw ar long, weithiau am hyd at ddau fis a hanner ar y tro. Rydyn ni'n eu galw yn *research cruises*, ond credwch fi, does yna ddim *buffets* am hanner nos na llond y lle o *cocktails*!

Ar y llongau, mae 'na griw o tua 30 a hyd at 30 o wyddonwyr - sy'n golygu fod pob gwely yn cael ei ddefnyddio. Rwy'ti felly yn gweithio, bwyta a byw gyda'r un 60 person - a does gen ti 'nulle i ddianc. Mae e bron fel bod yn nhŷ *Big Brother*, ond yn ffodus, does neb yn cael ei gicio mas!

Dyma un o'r agweddau anoddaf am y teithiau hyn - mae pawb yn meddwl mai'r teithio a'r tywydd fyddai anoddaf, ond mae'n rhaid i chi ddod o hyd i ffordd o ddod ymlaen 'da phobl.

Yn ffodus, mae ganddon ni fwy o ffyrdd i adlonni ein hunain nag oedd yn y gorffennol - gallwn ni ddod â channoedd o ffilmiau, llyfrau a chaneuon 'da ni ar declyn bach. A does dim modd dianc rhag yr e-byst, wrth gwrs. Mae'r we braidd yn araf... ond mi ydyn ni ar waelod y byd, felly dydi hi ddim yn syndod!

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
llong ymchwil danfor	peiriant sy'n mynd o dan y môr i wneud gwaith ymchwil	submarine reasearch vessel
mynd â mryd i	ymadrodd i gyfeirio at rywbeth yr ydych yn ei hoffi	takes my fancy
rhywogaethau	math neu ddosbarth o anifail/blanhigyn	species
rhwydi	ffurf luosog 'rhwyd' - rhywbeth wedi ei weu'n llac gyda llinyn	netting
gwyddonwyr	pobl sy'n gweithio ym myd gwyddoniaeth	scientists
ffodus	gair arall am lwcus, ffawd o'i blaid	fortunate
adlonni	creu adloniant	(to) entertain

6. Adeiladau yn Bwerdai!

Eitem ar raglen **Heno** S4C – Wythnos Gwyddoniaeth: Dr Eifion Jewell – 13eg o Fawrth, 2017 (ar Facebook)

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
arbenigo	bod â gwybodaeth arbennig, bod yn arbenigwr mewn maes arbennig	(to) specialise
ynni	gair arall am egni	energy
dibyniaeth	y weithred o ddibynnu	dependence
diwydiant	byd gwaith	industry
ymchwil	astudiaeth i geisio cael gwybodaeth	research
arbrawf	prawf i geisio profi rhywbeth	experiment
ysbrydoli	creu argraff neu ddylanwadu	(to) inspire

7. Sgrin-gyffwrdd hyblyg!

Mae sgriniau cyffwrdd yn rhan o fywydau pawb erbyn hyn. Mae hyd yn oed plant llai 'na dwy oed yn gwybod sut i weithio sgrin gyffwrdd. Mae ambell un ohonom ni yn ceisio llithro'n bysedd dros glawr llyfr er mwyn agor y llyfr, cymaint yr ydym wedi arfer â'r sgriniau hudolus. Felly pwy all ddychmygu ei bod yn bosib i'r dechnoleg anhygoel hon ddatblygu i fod yn fwy anghredadwy? Wel, mae'n debyg ei fod wedi digwydd. Mae gwyddonwyr wedi llwyddo i ddatblygu sgriniau hyblyg fydd, yn y pen draw, yn gallu cael eu plygu, rhowlio a'u hystyn. Mae'n debyg bod y posibiladau yn ddi-ddiwedd! Dyma stori fer yn archwilio hynny.

Olwen

Mae hi'n hanner dydd ar ei ben. Rwy'n eistedd wrth y ffenestr er mwyn cael edrych allan ar y stryd brysur. Mae'r bobl... a'r lleill... yn plethu trwy'i gilydd. Mae cymaint ohonyn nhw, does 'na fawr o olau dydd i'w weld rhyngddynt. Rwy'n dewis un o'r merched sy'n gwisgo siwt, yn amlwg yn gweithio mewn swyddfa o ryw fath. Rwy'n syllu arni. Rwy'n ei hastudio. Ydi hi'n un ohonyn nhw?

Mae 'na boen yn saethu i fyny fy mraich. Mae'r boen yn fy nhynnu o fy myfyrdod. Rwy'n rhoi fy llaw ar y rhwymau ac rwy'n teimlo gwres y boen yn codi o'r llosgiadau. Rwy'n edrych ar y cloc yn bryderus. Mae hi'n wyth munud wedi deuddeg.

Daw dyn ifanc i'r caffi a'i wynt yn ei ddwrn. Rwy'n edrych arno'n ddisgwylgar. Mae'n edrych arna i ac yn fy adnabod.

“Olwen?”

“Ie.”

“Wedodd eich tad eich bod chi'n ferch bert!”

Rwy'n syllu arno, heb ymateb. Mae yntau'n llyncu ei boer cyn eistedd i lawr. Rwy'n edrych trwy'r ffenestr eto ac yn gofyn iddo:

“Wyt ti'n meddwl bod rhai o'r bobl hyn yn un ohonyn nhw?”

Nid yw'r dyn yn edrych trwy'r ffenestr. Mae wedi dechrau tynnu samplau a phapurau o'i fag, ond mae'n fy ateb.

“Mae’n debygol iawn. Mae’r dechnoleg newydd sydd wedi’n galluogi ni i greu’r croen arbennig ’ma yn golygu ei bod hi’n anoddach nag erioed i fedru gweld gwahaniaeth rhwng y nhw a ni.”

Rwy’n edrych arno yn tynnu’r rholiau bach o sgriniau cyffwrdd hyblyg o’i fag. Tydi o ddim hyd yn oed wedi holi sut mae’r fraich yn teimlo, sut mae’r boen, sut ydw i. Rwy’n gwylltio’n dawel bach. Pam mai hwn sydd yma? Ble mae Dad? Ei syniad ef oedd rhoi’r “croen arbennig” yma ar fy mraich, yn hytrach na chroen arferol. “Fydd dim angen i ti gario dim ’da ti. Fydd dim angen i ti hyd yn oed gael *handbag*. Bydd popeth ar gael drwy gyffwrdd dy fraich. Meddylia am y rhyddid.” Wnes i gytuno, dim ond oherwydd am y tro cyntaf roedd gan Dad ddiddordeb yn fy mywyd.

Ac am y rhyddid? Pa ryddid?

8. Oes gen ti drôns?

Na, nid trôns, na phants ond *drone*. Mae drôns yn boblogaidd iawn ar y funud ac maent yn cael eu defnyddio i wneud pob math o bethau. Maen nhw'n cael eu defnyddio am hwyl ac yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith proffesiynol.

Amazon yw'r cwmni adwerthu oddi ar y we mwyaf yn y byd ac maent ar y funud yn datblygu gwasanaeth dosbarthu gan ddefnyddio drôns. Dyma rai o'r pethau y mae gwefan [digitalspy.com](https://www.digitalspy.com) yn meddwl y dylech wybod am wasanaeth drôn *Amazon Prime Air*.

1. Croesiad rhwng hofrennydd ac awyren!

Fel hofrennydd, mae'r drôns yn symud yn fertigol wrth godi a glanio. Fel awyren, maent yn symud yn llorweddol wrth deithio. Gall y drôns gyrraedd uchder o 100 metr a chyflymder o 100kya. Ond bydd yn rhaid iddynt ddychwelyd i'r ganolfan ar ôl pob taith er mwyn ailwefru. Ni fydd y drôns yn cael eu defnyddio ar gyfer pob dosbarthiad, dim ond os yw'n argyfwng – mae'n debygol y bydd yn wasanaeth costus!!

2. Drôns Amrywiol!

Mae'r cwmni wedi arddangos sut y bydd ambell un o'r teclynnau dosbarthu yn edrych, ond byddwn yn gweld amrywiaeth yn hedfan yn yr awyr cyn bo hir.

Ar y funud maent yn gweithio ar fwy na dwsin o gynlluniau gwahanol yn UDA, Prydain, Awstria ac Israel. Mae pob un yn amrywio o ran eu gallu i gario pecynnau o bob maint ac i ddelio â pha bynnag hinsawdd y maent ynddo. Ond gydag uchafswm pwysau o bump pwys, peidiwch a disgwyl y bydd y drôn yn dosbarthu set godi pwysau neu deledu i'ch tŷ chi!

3. Byddwch angen 'heli-pad' yn eich gardd!

Wel, ni fydd angen i chi gael ardal enfawr wedi ei tharmacio – nid yw hynny yn ymarferol – ond mae matiau glanio arbennig gyda logo'r cwmni ar ei ganol ar gael. Mae'r mat yn helpu i dywys y drôn i fan diogel ac esmwyth i lanio.

Mae'r mat glanio yn fychan ac ysgafn, felly'n hawdd i'w symud a'i gadw. Ond byddwch yn wylidwrus o'ch cymydog doniol yn ceisio ei osod ar do eich car, neu ei hoelio ar eich sied!

4. Osgoi Colomennod!

Ni fydd y drôns yn hedfan yn llawer uwch 'na brîg bwa Stadiwm Wembley ac felly fydd dim perygl iddo amharu ar awyrennau a hofrenyddion go iawn. Ond maen nhw'n debygol o ddod ar draws ambell aderyn! Yn ffodus, diolch i'w technoleg "synhwyro ac osgoi" sy'n defnyddio camerâu a synhwyrddion, bydd y drôn yn gallu ochrgamu o gwmpas ein ffrindiau pluog!

5. Byw'n agos!

Er ei fod yn swnio'n hynod o gyffrous, nid yw'r gwasanaeth yn fêl i gyd. Fel eich ffôn a'ch tabled, mae 'na wendid sy'n amharu ar y perfformiad – bywyd y batri! Dim ond pymtheng milltir yr oedd y drôn a gafodd ei arddangos yn gallu teithio. Saith milltir a hanner yno, a saith a hanner yn ôl. Felly ar hyn o bryd, os nad ydych chi'n byw o fewn ychydig filltiroedd i ganolfan ddosbarthu'r cwmni peidiwch â disgwyl i'ch pryniadau lanio'n daclus yn eich gardd gefn yn fuan!

9. Morlyn Llanw Bae Abertawe

Beth yw cynllun 'Morlyn Llanw Bae Abertawe'?

Dyma esboniad oddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru:

"Mae Prosiect Morlyn Llanw Bae Abertawe yn cynnig adeiladu wal fôr hir 9.5km ym Mae Abertawe, rhwng yr afonydd Tawe a Nedd, cysylltu dociau Abertawe i'r gorllewin a champws newydd Gwyddoniaeth ac Arloesi Prifysgol Abertawe i'r dwyrain. Bydd yn gartref i orsaf gynhyrchu trydan, canolfan ymwelwyr a chyfleusterau addysgol."

<https://naturalresources.wales/about-us/news-and-events/our-position/swansea-bay-tidal-lagoon/?lang=cy>

Dyma ddetholiad o erthygl oddi ar wefan *Cymru Fyw*. (Clicwch ar y ddolen os am ddarllen yr erthygl yn llawn.):

<http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/38597444>



Adroddiad yn ffafriol i gynllun morlyn Bae Abertawe

12 Ionawr 2017

Mae adroddiad annibynnol sydd wedi ei gyhoeddi ddydd Iau yn argymhell adeiladu morlyn llanw gwerth £1.3bn ym Mae Abertawe.

Dywedodd Charles Hendry, awdur yr adroddiad, y gallai morlynnoedd llanw fod yn "ddiwydiant newydd cyffrous a phwysig i'r Deyrnas Unedig".

"Ar ôl astudio'r dystiolaeth a siarad â phobl allweddol ar y ddwy ochr, fy marn i yw y dylen ni gymryd y cyfle nawr i symud 'mlaen â'r dechnoleg," meddai.

Ychwanegodd fodd bynnag y dylid aros i'r morlyn yn Abertawe gael ei adeiladu ac yna asesu ei effaith, cyn cymeradwyo prosiectau mwy mewn rhannau eraill o'r DU.

Mae gwrthwynebwyr i'r cynllun wedi mynegi pryder am ei effaith ar fywyd gwylt a'r amgylchedd, a hefyd wedi codi amheuan a fydd yn cynnig gwerth am arian.

Ar gais Llywodraeth Prydain, fe wnaeth y cyn weinidog ynni Charles Hendry dreulio bron i flwyddyn yn astudio ymarferoldeb y cynlluniau.

Gobaith y datblygwyr yw sefydlu rhwydwaith o forlynnoedd ar hyd arfordir y DU, gan ddechrau yn Abertawe. Mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu casgliadau'r adroddiad.

Cefnogaeth:

Wrth ymateb i'r adroddiad, dywedodd Ceri Davies o Gyfoeth Naturiol Cymru: "Mae datblygu ffynonellau newydd o ynni adnewyddol sydd yn lleihau niwed i'r amgylchedd yn nod yr ydym yn ei gefnogi'n llawn.

"Mae defnyddio'r llanw i greu ynni adnewyddol yn beth cymharol newydd ac mae'n beth cymhleth iawn. Nid oes neb wedi casglu tystiolaeth o'r blaen am y dechnoleg yma sy'n cael ei defnyddio am y tro cyntaf.

"Rydym yn cydweithio'n agos gyda datblygwyr y cynllun morlyn [...] yn Abertawe a gydag arbennigwyr eraill i sicrhau ein bod yn gwneud hyn yn fanwl ac yn deg."



12% o ynni:

Byddai'r cynllun ym Mae Abertawe yn cynnwys 16 o dyrbinau ar hyd morglawdd newydd, ond mae'n cael ei weld fel cynllun prawf ar gyfer cynlluniau llawer mwy.

Gallai'r rhain gynnwys safleoedd yng Nghymru ym Mae Caerdydd, Casnewydd a Bae Colwyn, ac yn Lloegr, oddi ar arfordir Cumbria a Bae Bridgwater.

Dywed Ysgrifennydd Cymru, Alun Cairns fod y Llywodraeth yn edrych ymlaen at astudio adroddiad Charles Hendry "a phenderfynu sut y gall lagwnau gyfrannu at anghenion ynni Cymru a gweddill y DU."

Mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu'r adroddiad. Dywedodd llefarydd: "Mae hyn yn amlwg yn cynnig cyfleoedd sylweddol posib i Gymru.

[...]

"Rydym yn croesawu'r sylw fod achos cryf iawn dros sefydlu Morlyn Llanw Bae Abertawe fel cynllun bychan arloesol i liniaru'r tir, yn dibynnu ar dderbyn cymeradwyaeth."

[...]